YSGOL CASMAEL

Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence



1.5.20

Prynhawn da,

Mae'n anodd credu bod Ebrill wedi diflannu mewn chwinciad a taw heddiw yw'r diwrnod cyntaf o fis Mai. Yn gyntaf, hoffwn rannu rhywfaint o newyddion da gyda chi, sef dolen i'n hadroddiad arfer da sydd wedi'i gyhoeddi gan Estyn yr wythnos hon. Lluniwyd yr adroddiad hwn yn dilyn ein harolygiad Estyn ym mis Tachwedd, yn sydyn mae'r cyfnod yna yn teimlo'n bell, bell yn ôl!
https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/mae-gan-lais-y-disgybl-ran-bwysig-mewn-cynllunio-cwricwlwm-creadigol-chyffrous

Mae gwaith y plant yn parhau i gyrraedd ni mewn sawl fformat ac yn dod â gwên i'n hwynebau. Rydyn ni'n ceisio trydar rhai o'r enghreifftiau fel bod y cyhoedd yn gallu gweld pa mor galed rydych chi i gyd yn gweithio. Os oes gennych gyfrif Trydar, dilynwch a hoffwch ein negeseuon ar @CriwCasmael.
https://twitter.com/CriwCasmael

Rydym yn gwerthfawrogi y gall y system One Note fod yn araf iawn, mae yna nifer o resymau am hyn! Byddwch yn amyneddgar os gwelwch yn dda. Mae'r heriau trawsgwricwlaidd i gyd yn cael eu hanfon trwy e-bost, felly nid oes angen mynediad at One Note. Mae hi'n bosib i ni e-bostio'r fathemateg a'r iaith hefyd. Os ydych chi'n cael trafferth, anfonwch e-bost at yr athro dosbarth. Byddwn yn gwneud ein gorau i ymateb cyn gynted ag sydd yn bosib. Os gallwch chi ddangos gwaith eich plentyn i ni, yna gallwn ni rhoi adborth i'n disgyblion. Gallwch ddychwelyd y gwaith trwy e-bost neu trwy anfon ffotograff os na allwch uwchlwytho gwaith i'r One Note. Os yw'ch plentyn yn mewngofnodi ac yn gweithio yn J2E, yna mae llwytho gwaith i'w ffeil i'r athrawon ei weld yn syml iawn. Y disgyblion hynny sydd wedi llwyddo i gwblhau'r fathemateg a'r iaith un diwrnod ar y tro sydd yn elwa'r fwyaf, gan eu bod yn cael adborth gan y staff bob cam o'r ffordd. Mae'r cyfnod hwn yn gyfle da iawn i bob disgybl ddod yn well wrth anfon e-byst, ceisiwch adael iddynt fod yn annibynnol lle bo hynny'n bosibl. Diolch i chi i gyd unwaith eto am eich amynedd a'ch dyfalbarhad.

Ar Ddydd Llun bydd set newydd o dasgau - 6 trawsgwricwlaidd ar gyfer pob oedran, a 3 mathemateg a 3 iaith ar gyfer blynyddoedd 3-6. Ar ôl y pythefnos nesaf, dim ond 1 wythnos sydd tan hanner tymor!

Cofiwch fod cefnogaeth gerddorol i ddisgyblion ar:
https://sites.google.com/hwbcymru.net/pms-learner-zone/home

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

YSGOL CASMAEL

Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence



Yn ogystal â hyn, mae mwy o adnoddau ar gyfer datblygiad corfforol ar http://sportwales.org.uk/chwaraeon-cymunedol/addysg/chwarae-i-ddysgu.aspx?lang=cy&

Os ydych chi'n siomedig oherwydd ni fydd Eisteddfod yr Urdd yn cymryd lle eleni, yna edrychwch ar y cystadlaethau sydd wedi cael eu creu i gymryd lle'r digwyddiad diwylliannol pwysig hwn.
http://s4c.urdd.cymru/cy/.

Wythnos yma yn y wasg, rwy'n siŵr rydych wedi dod ar draws addewid ein llywodraeth i chi teuluoedd lle mae dysgu o bell yn fwy o her. Mae'r llywodraeth yn awyddus i ni fel ysgolion i gynnig dyfeisiadau os ydych yn cwrdd â'r diffiniad yma:

' dysgwr nad oes ganddo fynediad at ddyfais briodol ar y rhyngrwyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ar-lein o gartref '.

Os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n perthyn i'r categori yma, yna cysylltwch â ni yn yr ysgol fel man cychwyn os gwelwch yn dda.

Mae'r cyngor hefyd wedi cyhoeddi cyllid grant ychwanegol ar gyfer teuluoedd sy'n dioddef o straen ariannol ychwanegol ar hyn o bryd, mae yna ffurflen gais ynghlwm wrth yr e-bost hwn.

Rwy'n siŵr bod rhai ohonoch eisiau ateb i'r cwestiwn llosg "Pryd fydd ysgolion yn ailagor?". Mae gen i ofn, nad oes yna ateb i chi eto. Y cyfan y gallaf ei wneud yw eich cyfeirio at y 5 pwynt clir a nodwyd gan Kirsty Williams, ein Gweinidog Addysg yr wythnos hon, a'ch sicrhau y byddaf yn eich hysbysu bob cam o'r ffordd. Yr hyn rydw i'n ei ddeall o'r datganiad yw, bydd diwrnod ysgol yn edrych yn wahanol iawn i'r arfer am gryn dipyn o amser i ddod.
https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cynllunio-camau-adfer-yn-sgil-covid-19-galluogi-ysgolion-i-weithredu?_ga=2.36773536.1617040380.1588340372-1723656479.1539364535

Unwaith eto mae'n ymddangos bod gen i lawer o negeseuon i'w rhannu gyda chi. Ymddiheuraf am gynhyrchu cymaint o wybodaeth. Ar ôl darllen hyn i gyd, cofiwch un neges bwysig os gwelwch yn dda, arhoswch adref ac arhoswch yn ddiogel. Rwy'n teimlo y bydd yr wythnosau nesaf yn allweddol i ni yn ein cornel fach o'r wlad. Peidiwch â bod yn ddiamynedd, mae angen i ni barhau i ddilyn y canllawiau a osodwyd i amddiffyn y rhai rydyn ni'n eu caru.
Gyda dymuniadau gorau am benwythnos hamddenol,
Amanda Lawrence,
Pennaeth.

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

YSGOL CASMAEL

Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence



Prynhawn da, Good afternoon,
It is hard to believe that in the blink of an eye April has passed and today is the first of May. Firstly, some good news, I am now able to share with you the link to our good practice report which has been published by Estyn this week. This report was compiled following our Estyn Inspection in November, suddenly this seems like many moons ago!
https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/pupil-voice-plays-important-part-planning-creative-and-exciting-curriculum

The children's work keeps on coming in many formats, and really brings a smile to our faces. We are trying to tweet some of the examples so that the public are able to see how hard you are all working. If you have a Twitter account please follow and like out posts, we are, @CriwCasmael.
https://twitter.com/CriwCasmael
We do appreciate that the One Note system can be very slow and tedious, there are a number of reasons for this! Please be patient. The cross curricular challenges are all emailed out so no access to One Note is required. The maths and the literacy can also be emailed if necessary. If you are struggling, please just email the class teacher. We will do our best to respond as soon as we are able. If you can show us your child's work, then this is a huge bonus as we can then provide feedback. You can return the work by email, or ust by sending a photograph if you are unable to upload work to the One Note. If your child logs in and works in J2E, then uploading work to their file for their teacher to see is very straight forward. Those pupils that have managed to access the maths and language one day at a time are benefitting most, as they are getting feedback from the staff each step of the way. This period is a really good opportunity for each pupil to become excellent at sending emails, please try and let them be independent where possible. Thank you all once again for your support, your patience and your perseverance.

On Monday there will be a fresh set of tasks – 6 cross curricular for all ages, and 3 maths and 3 language for years 3-6. After this next fortnight we will only have 1 week until half term!

Remember that there is musical support for pupils at:
https://sites.google.com/hwbcymru.net/pms-learner-zone/home
In addition there are more resources for physical development on
http://sportwales.org.uk/community-sport/education/play-to-learn.aspx

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

YSGOL CASMAEL

Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence



If you are disappointed that the Urdd Eisteddfod will not be going ahead this year, then please take a look at the virtual competitions that have been created to take the place of this important cultural event.
http://s4c.urdd.cymru/en/

You will have seen and read in the press, I am sure, the Welsh Govenrment's pledge to reach out to families for whom remote learning is more of a stryggle than for others. They are keen for us to offer to loan devices using the follwoing definition:

'***a learner who does not have access to an appropriate internet connected device to engage in online learning activities from home***'.

If you think that you fall in to this category then please get in touch with us at school initially.

The council have also announced additional grant funding for families who are experiencing the financial strain at the moment, an application form is attached to this email.

For those of you wanting an answer to the burning question "When will schools reopen?", I'm afraid I have no answer for you as yet. All I can do is refer you to the 5 clear points laid out by Kirsty Williams, our minister for Education this week, and assure you that I will keep you informed every step of the way. What I do understand from this is that a school day will look very different to what we are used to for quite some time to come.
https://gov.wales/written-statement-covid-19-recovery-phase-planning-operation-schools

Once again I seem to have many messages to share with you. I do apologise for the information overload. Please just remember one important message, stay home and stay safe. I do feel that the next few weeks will be crucial for us in our small corner of the country. Please let's not become complacent, we need to keep on following the guidelines laid out to protect those that we love.

With best wishes for a restful weekend,

Amanda Lawrence
Head teacher.

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

YSGOL CASMAEL

Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence



Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk